------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Hydref 2019

Amser: 12.45


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru


## (Rhag-gyfarfod)

(12.45 - 13.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.00)

**2.1 Gwrthsefyll Twyll yn y Sector Cyhoeddus: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (24 Medui 2019)**

(Tudalennau 1 - 3)

**2.2 Cynllun tocynnau bws rhatach Llywodraeth Cymru - FyNgherdynTeithio: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (1 Hydref 2019)**

(Tudalennau 4 - 8)

## 3 Rheoli Gwastraff: Sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

(13.05 - 14:25) (Tudalennau 9 - 35)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Tim Peppin - Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Craig Mitchell - Pennaeth Cymorth Gwastraff, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## (Egwyl)

(14.25 - 14.30)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 4 Rheoli Gwastraff: Sesiwn dystiolaeth gyda WRAP Cymru

(14.30 - 15.40) (Tudalennau 36 - 38)

PAC(5)-25-19 - Papur 1 - WRAP Cymru

Bettina Gilbert - Rheolwr Ardal Rhaglenni, Datblygu Marchnadoedd, WRAP Cymru

Emma Hallett - Rheolwr Tîm, Rhaglen Newid Cydweithredol, WRAP Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

(15.40)

Eitem 6

## 6 Rheoli Gwastraff: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(15.40 - 16.00)

Eitem 2.1

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

24 Medi 2019

Annwyl Mr Ramsay,

Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn falch o gael gwahoddiad i gymryd rhan yn nigwyddiad rhanddeiliaid y Pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2019 i drafod a rhannu arferion gorau Gwrth-dwyll yn y Sector Cyhoeddus. Croesawais hefyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018 a'i adroddiad ar Drefniadau Gwrth-dwyll yn Sector Cyhoeddus Cymru yn 2019.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymagwedd ragweithiol tuag at gydweithio ar faterion gwrth-dwyll ar draws Cymru, ac mae wedi cymryd rhan mewn sawl menter i rannu arferion da a hwyluso trafodaethau yn ymwneud â phob agwedd ar ymwybyddiaeth o dwyll ac ymchwilio. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyflwyniad gan staff gwrth-dwyll yn nigwyddiadau Cyfnewid Arferion Da Swyddfa Archwilio Cymru, gyda chynrychiolwyr sefydliadau cyhoeddus o amrywiol sectorau yn bresennol
- Cyflwyniad mewn gweithdai gydag awdurdodau lleol a Heddlu Gogledd Cymru i ddysgu gwersi a gwella'r fframwaith rheolaeth yn dilyn achosion o dwyll yn ymwneud â chonsesiynau bws.

Ar ben hynny, mae amrywiol ymchwiliadau wedi ein harwain i rannu gwybodaeth gyda nifer o sefydliadau er mwyn atal neu ymchwilio i achosion o dwyll, gan gynnwys awdurdodau lleol, y Comisiwn Elusennau, Cronfa Loteri Fawr, y Gwasanaeth Ansolfedd, cyrff addysgol, gwasanaeth gwrth-dwyll y GIG, Tŷ'r Cwmnïau, Swyddfa'r Cabinet y DU, yr Heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Mae'r trafodaethau hyn wedi atgyfnerthu'r farn, y gwn eich bod chi a'ch Pwyllgor yn ei rhannu, bod amrywiol lefelau o ddealltwriaeth, adnoddau ac arbenigedd o fewn cyrff sector cyhoeddus ar draws Cymru.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae'ch Pwyllgor wedi cyfeirio dau argymhelliad penodol at Lywodraeth Cymru yn dilyn y digwyddiad Rhanddeiliaid, ynghylch trefniadau gwrth-dwyll yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

**Argymhelliad: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried a oes posibilrwydd a chwmpas ar gyfer cefnogi tîm gwrth-dwyll cenedlaethol i weithio ledled Cymru i sicrhau bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn ymgymryd ag o leiaf lefel sylfaenol o waith gwrth-dwyll ym mhob ardal awdurdod lleol.**

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn llwyr gefnogi awdurdodau lleol i roi sylw i dwyll o fewn eu £8 biliwn o wariant refeniw cyffredinol. Fel sefydliadau annibynnol dan arweiniad democrataidd, y 22 cyngor eu hunain sy'n bennaf gyfrifol am ganfod ac atal twyll. Yn unol â hynny, rydym yn disgwyl pob un ohonynt i ymroi'n llwyr i'r gwaith hwn, ac i wleidyddion lleol ddeall a darparu arweiniad. Er mwyn gwneud yn siŵr bod yr argymhelliad yn cael ei ddeall ac yn cael blaenoriaeth, bydd swyddogion yn codi'r mater gyda'r Gweinidogion i sicrhau eitem ar agenda'r Cyngor Partneriaeth yn ogystal â'i Is-bwyllgor Cyllid. Yn ddarostyngedig i gytundeb y Gweinidogion, byddwn yn gosod eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf posib.

**Argymhelliad: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau iddi ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol gryfach a chanllawiau o ansawdd gwell ar rannu gwybodaeth, i helpu i gryfhau a gwella effaith gweithgareddau gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru**.

**Ymateb: Derbyn**
Rwy'n cefnogi unrhyw ymgais i gynyddu'r ddealltwriaeth am dwyll ac i weithredu technegau arferion gorau yn gyson ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Mae cyfrwng eisoes yn bodoli i ddwyn ymarferwyr gwrth-dwyll a phartïon eraill ynghyd ac i ysgogi dealltwriaeth gyffredin o'r maes pwysig hwn.

Mae Pennaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru yn Ddirprwy Gadeirydd Fforwm Twyll Cymru, elusen ddielw sy'n cael ei rhedeg gan fwrdd strategol o wirfoddolwyr. Ei nod yw helpu i atal twyll yng Nghymru drwy godi ymwybyddiaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac ymysg unigolion. Yn benodol, mae'r amcanion a nodwyd yn cynnwys:

- dwyn y sectorau cyhoeddus a phreifat ynghyd i ymladd twyll a throseddau ariannol ac amddiffyn economi Cymru
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll ymysg ei aelodau, sefydliadau ac unigolion drwy'r rhanbarth

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- creu diwylliant o arferion gorau drwy annog a datblygu strategaethau gwrth-dwyll i'w defnyddio gan yr aelodau
- sefydlu arferion gorau rhwng aelodau ar gyfer atal, ymchwilio a chanfod achosion o dwyll
- hyrwyddo amgylchedd agored a chydweithredol rhwng yr aelodau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae cryn dipyn o barch i'r Fforwm; yn 2017 bu'r Prif Weinidog presennol yn annerch ei gynhadledd flynyddol, gan amlinellu ei gefnogaeth i drefniadau gwrth-dwyll ar draws Cymru. Ymysg aelodau'r Fforwm mae Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â nifer o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat.

Felly, rwy'n credu y gall Llywodraeth Cymru sicrhau'r canlyniad y mae'n ei ddymuno drwy nodi strategaethau i gefnogi gwaith y Fforwm, codi ei broffil ymysg sector cyhoeddus Cymru a cheisio cael lefel uchel o ymrwymiad ganddynt i'w gefnogi. Byddaf yn gofyn i'r Swyddogion ymgysylltu a'r Fforwm i drafod strategaethau ar gyfer gryfhau'r ei effeithiolrwydd erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

Rydym yn cytuno bod potensial i rannu data rhwng cyrff cyhoeddus Cymru i wella effaith gweithgarwch gwrth-dwyll. Mae cyflwyno Deddf yr Economi Ddigidol yn rhoi pwerau newydd i Lywodraeth Cymru a rhai cyrff cyhoeddus cofrestredig eraill yng Nghymru rannu data gyda'i gilydd, yn unol â'r drefn, er mwyn adnabod achosion posib o dwyll. Mae swyddogion yn gweithio i sefydlu trefn lywodraethu briodol ar gyfer datblygu'r defnydd o'r pwerau hynny yng Nghymru, a'r nod yw sefydlu panel erbyn diwedd y flwyddyn ariannol i ystyried defnyddiau posib y pwerau.

Gan ystyried y bydd angen amser i ddatblygu rhai o'r mentrau hyn, rwy'n mynd i ysgrifennu gyda'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y camau sy'n cael eu cymryd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus

1 Hydref 2019

Annwyl Gadeirydd

**Cynllun tocynnau bws rhatach Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc – FyNgherdynTeithio**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf yn gofyn am eglurhad pellach o'r wybodaeth a ddarparwyd yn fy llythyr dyddiedig 27 Mehefin a'r papur tystiolaeth dyddiedig 20 Mai 2019. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ateb.

Mae'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani i'w gweld isod:

**Ffigurau ar nifer y bobl ifanc 19-21 oed sydd wedi manteisio ar y cynllun**

- *Esboniad o'r gwahaniaeth rhwng y 1,554 o geisiadau a gafwyd gan bobl ifanc 19-21 oed erbyn 22 Ebrill a'r 834 o gardiau a oedd mewn cylchrediad ar 9 Mai.*

Mae'r ffigur o 1,554 o geisiadau a gyflwynwyd yn ein Papur Tystiolaeth ar 20 Mai 2019 yn cynnwys pob cais o fewn ystod oedran y cynllun diwygiedig (16-21 oed), yn hytrach na dim ond y categori ystod oedran newydd ar gyfer pobl ifanc 19-21 oed.

- *Yn benodol, y graddau y mae'n adlewyrchu ceisiadau y barnwyd eu bod yn anghymwys am wahanol resymau, oedi yn y broses o asesu ceisiadau, neu enghreifftiau posibl o gardiau a oedd wedi cael eu dyroddi ers y lansiad ym mis Chwefror ond a oedd eisoes wedi dod i ben.*

Mae'r gweinyddwyr wedi cadarnhau nad ydynt yn casglu'r wybodaeth hon. Byddai sawl cais aflwyddiannus gan yr un ymgeisydd yn creu cofnodion dyblyg yn y system a byddai mesurau gwrth-dwyll y system yn golygu na fyddai cerdyn yn cael ei ddyroddi.

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

*Os oes ffigurau mwy diweddar ar gael sy'n dangos unrhyw newid posibl yn y sefyllfa ers mis Ebrill/Mai, byddai'n falch gennym gael y ffigurau hynny.*

Mae adroddiad system FyNgherdynTeithio a luniwyd ar 1 Awst 2019 yn nodi bod gan 551 o bobl ifanc rhwng 19 a 21 oed gardiau teithio dilys erbyn hyn.

**Y defnydd a wneir o'r cardiau**

- *Roedd eich llythyr yn dweud, o'r 17,795 o gardiau byw (sy'n ddilys ar gyfer teithio) ar 9 Mai, fod 2,287 o gardiau gwahanol wedi cael eu defnyddio i brynu tocynnau lle cafodd y gwerthiant ei gofnodi'n electronig. Mae'n dweud hefyd fod cyfanswm o 29,344 o docynnau clyfar wedi cael eu prynu, ac y byddai rhai o'r rhain wedi bod yn ddilys am fwy nag un daith. Hoffem gael cadarnhad o'r cyfnod(au) amser y mae'r dadansoddiad hwn yn berthnasol iddo (iddynt).*

Ciplun o'r data a oedd yn cael eu dal gan y darparwr swyddfa gefn ar 9 Mai 2019 oedd y cyfnod amser perthnasol ar gyfer y 17,795 o gardiau byw (sy'n ddilys ar gyfer teithio). O'r 17,795 o gardiau hynny a oedd yn ddilys ar gyfer teithio, defnyddiwyd 2,287 ohonynt i brynu tocynnau clyfar rhwng mis Ebrill 2017 a 9 Mai. (Nid yw'r data sydd ar gael yn gyfleus yn mynd yn ôl ymhellach na hyn - mae'n bosibl bod nifer bach cyn y dyddiad hwn.)

Mae'r ffigur o 29,344 o docynnau clyfar yn cynnwys pob tap electronig a wnaed gan y cardiau hyn rhwng 1 Ebrill 2017 a 9 Mai 2019. Fodd bynnag, efallai nad yw'r rhain i gyd yn drafodion newydd, a gallai'r ffigur gynnwys tapiau a wnaed wrth ddefnyddio tocyn dwyffordd neu docyn wythnosol ac ati.

Y ffigur ar gyfer pob tap, gan gynnwys y rhai a wnaed gan gardiau nad ydynt yn ddilys mwyach, rhwng 1 Ebrill 2017 a 9 Mai 2019 yw 55,603.

- *Mae eich llythyr hefyd yn dweud na chaiff pob tocyn a brynir ei gofnodi'n electronig ac felly nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i wybod faint o gardiau sydd heb eu defnyddio. Rydym ni ar ddeall, ar sail adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, fod y rhan fwyaf o docynnau a brynir yn cael eu cofnodi drwy beiriannau tocynnau electronig. Fodd bynnag, rydym yn tybio bod y datganiad hwn yn cyfeirio at nifer y 'tocynnau clyfar' a brynir gan ddefnyddio cerdyn hysbys. Hoffem gael cadarnhad ynglŷn â hyn, a syniad o'r graddau y mae systemau sy'n gallu derbyn cardiau clyfar bellach ar waith ledled Cymru i gefnogi cynllun FyNgherdynTeithio ac unrhyw waith dadansoddi yn y dyfodol.*

Mae hynny'n gywir, mae'r cysylltiad rhwng prynu tocyn clyfar a cherdyn FyNgherdynTeithio unigol.

Mae systemau tocynnau sy'n gallu derbyn cardiau clyfar bellach ar waith ledled Cymru er mwyn cofnodi teithiau bws rhatach/am ddim gorfodol gan bobl hŷn neu bobl anabl, a thocynnau a brynir gan ddefnyddio FyNgherdynTeithio. Fodd bynnag, gan mai cynllun gwirfoddol yw FyNgherdynTeithio, mae'n rhaid i bob cwmni bysiau sy'n cymryd rhan yn y cynllun raglennu ei seilwaith peiriannau tocynnau i gofnodi tocynnau a brynir gan ddefnyddio FyNgherdynTeithio. Mae'n rhaid i'r gyrwr ddilyn y camau cywir wrth brosesu'r trafodyn hefyd. Yna caiff y cofnod electronig hwn ei ddefnyddio gan y cwmnïau i'w helpu i hawlio ad-daliadau:

os ydynt yn dewis adennill y refeniw a ildiwyd. Felly, mae cymhelliant i gwmnïau bysiau ddarparu cofnodion electronig.

Y ffigurau diweddaraf gan y swyddfa gefn ar gyfer 3 Awst 2019 yw:

- 18,959 o gardiau byw (sy'n ddilys ar gyfer teithio)
- o'r rhain, defnyddiwyd 2,520 o gardiau i brynu tocynnau lle cafodd y trafodyn ei gofnodi'n electronig rhwng 1 Ebrill 2017 a 3 Awst 2019;
- Rhwng 1 Ebrill 2017 a 3 Awst 2019, gwnaed 62,836 o dapiau electronig. Byddai rhai o'r rhain wedi bod yn prynu tocynnau a fyddai'n ddilys am fwy nag un daith, ac mae'n bosibl y byddai rhai wedi bod yn tapio ar docynnau aml-daith a brynwyd eisoes.

**Manylion y system ddigolledu**

- *Diolch am gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddigolledu cwmnïau bysiau ar sail defnydd gwirioneddol ers 1 Ebrill 2017. Ar y sail honno, rydym yn tybio bod y datganiad canlynol yn eich papur tystiolaeth blaenorol yn anghywir, yn yr ystyr bod y system ddigolledu hon eisoes wedi cael ei chyflwyno cyn adolygiad yr archwilwyr mewnol: "Roedd yr adroddiad [archwilio mewnol] yn nodi'n glir y gallai gwersi gael eu dysgu, ac aeth Llywodraeth Cymru ati'n gyflym i roi nifer o gamau gweithredu ar waith - gan gynnwys ad-dalu'r cwmnïau bysiau ar sail y nifer gwirioneddol o siwrneiau a deithiwyd."*

Cynhaliwyd adolygiad yr archwilwyr mewnol rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2018, a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2018. Cyn yr adroddiad hwnnw, roeddem eisoes wedi ystyried cyfleoedd i wella'r cynllun drwy ddefnyddio gwersi a ddysgwyd yn ystod y cynllun peilot 18 mis cychwynnol. Roedd hyn yn cynnwys newid i weithredu ar sail galw, rhywbeth a wnaed cyn gynted â phosibl, ym mis Ebrill 2017, cyn adolygiad yr archwilwyr mewnol yn 2018.

**Modelu costau ar gyfer pobl ifanc 19-21 oed a'r gyllideb gyffredinol ar gyfer 2019-20**

- *Gwnaethoch ddisgrifio'r dadansoddiad fel 'slightly crude maths' yn eich tystiolaeth lafar ond, serch hynny, nodwyd bod mwy wedi cael ei wneud ar gyfer y gwaith modelu hwn. Rydym wedi nodi lleihad yn nifer cyffredinol y bobl ifanc 16-18 oed o gymharu â'r ffigurau a ddefnyddiwyd i lunio'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer y cynllun yn 2015. Serch hynny, roedd 'nifer amcangyfrifedig y cardiau bob blwyddyn' ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed (12,185) yn amlwg yn is na nifer y cardiau byw mewn cylchrediad ym mis Awst 2018 (ffigur a oedd wedi cynyddu i 16,961 erbyn 9 Mai 2019). Felly, hoffem gael cadarnhad o'r rhesymeg dros ddewis y ffigur o 12% wrth fodelu faint o bobl ifanc 16-18 fyddai'n manteisio ar y cynllun a'i gymhwyso wedyn i bobl ifanc 19-21 oed. Er gwaethaf eich disgrifiad blaenorol, roedd hi'n syndod gweld hefyd fod yr un tybiaethau o ran niferoedd/teithiau wedi cael eu cymhwyso i bobl ifanc 19-21 oed heb ystyried unrhyw wahaniaethau posibl mewn patrymau teithio nac, ar gyfer 2019-20 o leiaf, yr effaith a gâi cynnydd graddol yn nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar y cynllun ar ôl y lansiad. Byddem yn croesawu manylion am unrhyw dystiolaeth ategol am ddefnydd bws presennol ymhlith pobl ifanc 19-21 oed a ddefnyddiwyd i lywio'r dadansoddiad.*

Fel rhan o'r rhesymeg, ystyriwyd y byddai nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar y cynllun yn cynyddu yn sgil y gweithgareddau marchnata a oedd yn cael eu cynllunio. Er bod y cynllun yn cael ei arwain gan alw, mae'n bwysig hefyd gynnwys y senarios gwaethaf a allai godi wrth bennu'r gyllideb sydd ei hangen er mwyn galluogi'r Gweinidogion i wneud penderfyniadau gwybodus.

Yn yr un modd â'r peilot cychwynnol i bobl ifanc 16-18 oed, nid oes ffynhonnell gyfleus o ddata ar deithiau ar gael ar gyfer y grŵp 19-21 oed. Y ffynhonnell ddirprwyol agosaf oedd ar gael oedd yr un a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer y grŵp 16-18 oed o ystyried y byddai disgwyl i'r dibenion teithio fod yn debyg (teithiau rheolaidd ar gyfer addysg neu waith a hamdden). Yn yr un modd â phob cynllun a arweinir gan alw, caiff nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun a'r defnydd a wneir ohono eu hadolygu a bydd rhagolygon cyllidebol yn y dyfodol yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael. Er bod y cynnig yn atyniadol iawn, mae'n wir hefyd y gallai rhai darpar ddeiliaid cardiau hŷn fod wedi dewis yn barod eu bod am deithio mewn car pan ddaethant yn gymwys.

- *Er mwyn sicrhau cyflawnder, byddai diddordeb gennym hefyd i weld dadansoddiad o nifer gwirioneddol y teithiau amcangyfrifedig yn 2018-19 ar sail gwerthiannau tocynnau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed (cyfateb i Ffigurau A5 ac A6 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol).*

Yn anffodus, nid ydym wedi gallu cael gafael ar y wybodaeth hon eto. Gan fod hwn yn gyfnod prysur ar gyfer prosesu ceisiadau a dyroddi cardiau, bydd angen mwy o amser arnom i gael y wybodaeth hon a'i rhoi ichi.  Gobeithio y gallwn rannu'r wybodaeth hon â chi ym mis Hydref ar ôl i'r flwyddyn academaidd newydd ddechrau.

**Materion eraill**

- *Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 20 Mai, nododd Sheena Hague fod swyddogion yn edrych ar faint o'r rhai 19-21 oed a oedd wedi cael cardiau a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun pan roeddent yn 16-18 oed. Byddai diddordeb gennym weld unrhyw ddadansoddiad o'r fath.*


Mae swyddogion wedi gofyn i weinyddwyr FyNgherdynTeithio am fanylion am nifer y bobl ifanc 16-18 oed a oedd wedi mynd ymlaen i wneud cais am gerdyn 16-21 oed ar ôl i'r oedran gael ei ymestyn.

Mae'r gweinyddwyr wedi cadarnhau nad oes ganddynt ddata ar nifer y deiliaid cardiau 16-18 oed sydd wedi mynd ymlaen i wneud cais o dan y cynllun newydd, a hynny oherwydd y ffordd y mae'r gweinyddwyr yn storio ac yn dinistrio data sy'n destun y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a hefyd yr angen i ganiatáu i ymgeisydd sy'n dychwelyd i'r cynllun wneud cais am gerdyn newydd heb i'r cais hwnnw gael ei wrthod am ei fod yn cael ei ystyried yn gais dyblyg.

Gwaetha’r modd, rydyn ni newydd gael gwybod gan y gweinyddwyr bod geiriad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn y broses ymgeisio yn eu gwahardd rhag holi ymgeiswyr i gael data hyn.

Hyderaf fod yr uchod yn eich helpu â'ch trafod ond mae croeso i chi gysylltu â mi yn y cyfamser os bydd angen unrhyw arall arnoch.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Inquiry into Waste Management

## by the Public Accounts Committee

## Memorandum from WRAP Cymru

### Executive Summary

1. WRAP Cymru welcomes the opportunity to provide written evidence to the Public Affairs Committee's Inquiry into waste management, launched on 13 May.

2. WRAP Cymru is a part of WRAP. WRAP works with governments, businesses and communities to deliver practical solutions to improve resource efficiency and is backed by government funding from England, Wales and Northern Ireland.

3. WRAP Cymru delivers the Collaborative Change Programme (CCP) on behalf of the Welsh Government. Our other Welsh Government-funded work includes communications support for local authorities introducing changes to their recycling services, sustainable procurement support for Wales' public sector, and the Courtauld Commitment 2025 and UK Plastics Pact.

4. This paper provides written evidence in relation to the Auditor General for Wales's reports into municipal recycling, with a specific focus on the increase in recycling rate in Wales in recent years and greater levels of consistency of service across different local authorities.

5. The rest of this memorandum covers the following issues:
   - Use of landfill;
   - Recycling rates;
   - Service consistency;
   - Recycling capture rates;
   - Comparative costs of recycling services; and
   - Comparative carbon impacts of different recycling services.

6. We hope that this evidence will be of use to the Committee, and will be happy to expand upon it further in our oral evidence on 14 October.

### Use of Landfill

7. Reliance on landfill by Local Authorities has decreased markedly throughout Wales in recent years. In 2017-2018 11% of municipal solid waste was sent to landfill compared to 41% in 2012-2013. Projections suggest this will decrease further in 2018-19, with a further decrease expected in 2019-2020 as a result of the Parc Adfur energy from waste facility coming on line in summer 2019.

8. We anticipate that, notwithstanding any unforeseen events or circumstances, Wales will reach the 2024-2025 target of no more than 5% of municipal solid waste sent to landfill.

**Recycling rates**

9. The municipal recycling rate increased from 7% in 2000-2001 to 63% in 2017-18. The rates declined slightly between 2016-2017 and 2017-2018 due to improved end destination reporting and better reporting of wood reject rates.

10. We anticipate that Wales as a whole will meet the 2019-2020 target of 64% recycling, and that that this rate will increase with local authorities introducing new recycling services.

**Service consistency**

11. Since the Wales Audit Office report both the Vale of Glamorgan and Pembrokeshire have confirmed their planned change to a blueprint collection model and these are both being implemented in autumn 2019. Denbighshire County Council is planning plans to change to a blueprint service in the next two years. This will bring the number of local authorities that follow the Welsh Government blueprint to 14.

12. It is also worth noting that there are many aspects of the blueprint that are followed by most, if not all, Welsh local authorities, for example weekly food waste collections and the basic list of materials collected, comprising paper, cardboard, plastic bottles, plastic pots, plastic tubs, plastic trays, metal cans and small scrap (e.g. kitchen utensils), foil, and glass jars and bottles.

**Recycling capture rates**

13. WRAP Cymru's National Municipal Waste Compositional Analysis in Wales, published in 2016, examined waste arisings in every local authority in Wales. It found that just under half of the material collected in kerbside residual waste collections could be readily recycled using services available to residents. Half of this (25% of the total) is food waste.

14. This demonstrates that there is further potential to use communications and behaviour change campaigns to increase recycling rates – and particularly food waste capture rates – using existing recycling services.

**Comparative costs of recycling services**

15. Our report on Harmonised Recycling Collections Costs, published in 2016, compared source separated kerbside collections to co-mingled and two stream collections and found that the former offered the most cost-effective approach to achieving high recycling rates.

**Comparative carbon impacts of different recycling services**

16. Our Carbon Impacts Report, published in 2016, examined the carbon impacts of different recycling services used by local authorities in Wales, comparing the performance of kerbside sort, co-mingled and two stream systems. It also considered the climate change benefits of recycling activities in 2014-2015 and compared this to the benefits that would be seen if the Welsh Government's Collections Blueprint were to be adopted by every local authority.

17. We look forward to discussing these points with the Committee in person on 14 October.

**Submitted by:**
Carl Nichols
Head of WRAP Cymru
27 September 2019